

Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Newydd i'r rhifyn diwethaf o Llais Bro Aled gael ei gyhoeddi, fe ddaeth y newyddion trist am farwolaeth Mr Elwyn Roberts (Llansannan). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Sali ei briod, a'i chwaer Eirwen Foulkes (Llanfair), a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt mewn ffordd arbennig, ac y byddant, ynghanol eu galar a'u hiraeth, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt. Yn yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad â Iorwerth Williams (Hiraethog) a'r teulu i gyd ym marwolaeth ei frawd, George, a hynny mor fuan ar ôl colli brawd arall yn ystod yr haf. Gweddïwn y byddant oll, ac eraill o'n plith sy'n galaru am anwyliaid, yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau anodd hyn.

Anfonwn ein cofion at bawb o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Da deall fod llawdriniaeth Nansi Jones (Henllan) wedi mynd yn hwylus yn yr ysbyty yn Lerpwl a'i bod bellach wedi dod adref, fel ag y mae Iorwen Roberts (Llansannan) ar ôl ei harhosiad hithau yn Ysbyty Glan Clwyd. Dymunwn adferiad buan iawn i'r ddwy ohonynt a phawb arall o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn. Diolchwn am bob gofal drostynt, a gweddïwn eu bod yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Glyn Parry (Groes) ar ddathlu pen-blwydd arbennig!

Calendr Cristnogol

Mae cyfle arbennig i unigolion ac eglwysi i archebu Calendr Cristnogol ar gyfer 2022 sy'n cynnwys adnodau mewn print bras o gyfieithiad Beibl William Morgan. I sicrhau copi (neu gopïau) am bris gostyngol o 50c yr un, cysylltwch â Mair.



Llais y Gymanfa

I gael blas ar weithgarwch Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru 2021, cliciwch ar y ddolen hon: <https://www.ebcpcw.cymru/cy/llais-y-gymanfa-2021/>, neu cysylltwch â Mair os hoffech dderbyn copi papur. Hyderwn y daw cyfle i roi mwy o sylw i wahanol agweddau o'r gwaith dros y misoedd nesaf.

Manylion Cyswllt

Rhodri – (Ar gyfnod Sabothol rhwng Hydref 1^{af} – Tachwedd 12^{fed})

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (10^{fed}), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 31 Hydref 2021

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

'Byddwch ddig, ond peidiwch â phechu; peidiwch â gadael i'r haul fachlud ar eich digofaint, a pheidiwch â rhoi cyfle i'r diafol.' (Effesiaid 4:26-7)

Mae'n siŵr y bydd yna adegau yn ein bywyd pryd y byddwn yn ddig, ac mewn rhai achosion fe fydd modd inni gyfiawnhau ein hunain, yn enwedig os bydd rhyw drychineb yn dod i'n rhan neu y byddwn yn dod ar draws pethau sy'n ymddangos yn gwbl anghywir i ni, neu sy'n amlwg yn anghyfiawn. Cofiw'n fod Iesu wedi bod yn ddig ac wedi 'glanhau y deml' oherwydd hynny (Ioan 2:13-22).

Fodd bynnag, y ffordd y byddwn yn ymateb ac yn delio â'n dicter fydd yn cael dylanwad, nid yn unig ar eraill, ond arnom ni ein hunain. Faint ohonom fyddai'n hoffi cael cyfle i droi'r cloc yn ôl er mwyn ymateb yn wahanol i ennyd o ddicter, am ein bod yn edifar am yr hyn a ddywedom neu a wnaethom?

Fe rybuddia'r Ysgrhythur ni i ddelio'n ofalus â'n dicter, yn enwedig os yw'n achosi inni bechu, ac fe'n hanogir i beidio â dal dig nac oedi'n hir ynddo: *'Bwriwch ymaith oddi wrthyh bob chwerwder, llid, digofaint, twrw, a sen, ynghyd â phob drwgdeimlad. Byddwch yn dirion wrth eich gilydd; yn dyner eich calon, yn maddau i'ch gilydd fel y maddeuodd Duw yng Nghrist i chwi.'* (Effesiaid 4:31-32)

'Paid â rhuthro i ddangos dig, oherwydd ym mynwes ffyliaid y mae dig yn aros.' (Pregethwr 7:9) Bydd amryw ohonom yn gallu uniaethu â'r gwirionedd yma ac yn gallu cofio adeg pan fu i'n dicter achosi inni deimlo fel ffyliaid oherwydd ein hymateb.

Onid Duw sydd â'r hawl i fod yn ddig efo ni wrth iddo edrych ar y drygioni sydd mor amlwg ar y ddaear a gweld sut mae pobl wedi ei wrthod a throi oddi wrtho? Ond, er gwaethaf ein natur bechadurus a'n tuedd i grwydro, mae'n dal ei ddicter yn ôl ac yn estyn trugaredd, cariad diamod a maddeuant. *'Iachâf eu hanffyddlondeb; fe'u caraf o'm bodd, oherwydd trodd fy llid oddi wrthynt.'* (Hosea 14:4)

Wrth inni fyw ein bywydau, mae'n amlwg fod dicter yn rhywbeth sydd angen ei reoli'n ofalus. Dywed Iago y dylem fod yn araf i ddigio am nad yw ein dicter yn cyfrannu dim at y bywyd o gyfiawnder mae Duw yn ei geisio gennym. (Iago 1:19-25)

Efallai y bydd o gymorth inni, pan fyddwn yn teimlo'n ddig, ystyried aberth yr Arglwydd Iesu dros bob un ohonom ar Galfarî. Wrth iddo ef ddiodef ing creulon y groes a chymryd arno'i hun bechod y byd, fe fyddai'r llwyth trwm hwnnw wedi cynnwys canlyniadau ein dicter ninnau.

Gan fod arnom ni'r fath ddyled o gariad ac o ddiolchgarwch, a yw'n afresymol inni wneud fel y dywed y Beibl a chael gwared ar ein dicter? Wrth inni ymdrechu gyda hyn, bydded inni gymorth yr Ysbryd Glân sydd yn ein gwella a'n gwneud yn debycach i Iesu ei hun.

Huw Powell Davies (gyda diolch am ei ganiatâd)

Cyhoeddiadau'r Fro

Gair i'ch atgoffa bod rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ymhob capel i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd unai yn dioddef hefo'r feirws neu ag unrhyw un o'r symptomau, neu sydd i fod i ynysu ar adeg yr addoliad, a gofynnir yn garedig i'r holl fynychwyr ddod â mygydau a'u gwisgo y tu mewn i'r adeilad, os gwelwch yn dda.

Y Fro

- Sul yma – Hydref 31^{ain} ➤ **Sgwrs a Gweddi** yn Ffestri Cefn Meiriadog am 6:00 yr hwyr. Croeso i bawb.
- Nos Lun, Tachwedd 1^{af} a Dydd Gwener, Tachwedd 5^{ed} ➤ **Byw mewn Gobaith, Merched yr Hen Destament** – y pedwerydd sesiwn mewn cyfres o saith astudiaeth o dan arweiniad gweithwyr Dorcas (ar ZOOM). Gellir ymuno naill ai ar nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar brynhawn Gwener am 1:30. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)
- Sul nesaf – Tachwedd 7^{fed} ➤ **Sgwrs a Gweddi** yn Ffestri Llansannan am 6:00 yr hwyr. Croeso i bawb.
- Sul canlynol – Tachwedd 14^{eg} ➤ **Sgwrs a Gweddi** yn Ffestri Llansannan am 6:00 yr hwyr. Croeso i bawb.
- Rhaghysbys ➤ Cynhelir **Cynhadledd Dydd Gweddi'r Byd** (ar ZOOM) **dydd Mercher, Tachwedd 24^{ain}** o 10:00 – 12:00. Os ydych am ymuno, gofynnir i chi gysylltu (rhwng Tachwedd 1^{af} ac 17^{eg}) â Margaret Morgan (margaretmaudmorgan@gmail.com). Bydd hynny'n ei galluogi i anfon y ddolen i chi ymlaen llaw i allu cysylltu ar ZOOM.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – Hydref 31^{ain} ➤ **Oedfa i'r Daith (Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair) yn LLANSANNAN am 10:30** o dan arweiniad Mr Alun Jones.
- Nos Lun, Tachwedd 1^{af} ➤ **Ysgol Sul yn Ffestri Cefn Meiriadog am 7:00.**

- Sul nesaf – Tachwedd 7^{fed} ➤ **Oedfa yn Llansannan am 9:30 ac yng Nghefn Meiriadog am 11:00** o dan arweiniad y Parch. Trefor Lewis.
- Nos Lun, Tachwedd 8^{fed} ➤ **Ysgol Sul yn Ffestri Cefn Meiriadog am 7:00.**
- Sul canlynol – Tachwedd 14^{eg} ➤ **Oedfa yn Llansannan am 9:30 ac yn Llanfair am 11:00** o dan arweiniad Rhodri.

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – Hydref 31^{ain} ➤ **Oedfa yn Llanefydd am 9:30 ac yn Henllan am 11:00** yng nghwmni'r Parch. John Pritchard. Ar gyfer yr oedfa yn Henllan, enwau i Rhian neu Alys (rhianfachgau@yahoo.com / alysowen1@hotmail.co.uk), os gwelwch yn dda. (Nid oes angen bellach i roi enwau ymlaen llaw ar gyfer yr oedfa yn Llanefydd.)
- Sul nesaf – Tachwedd 7^{fed} ➤ **Gwasanaeth Thema yn Henllan am 9:30 ac Ysgol Sul am 10:30.** Enwau ar gyfer yr oedfa i Rhian neu Alys (rhianfachgau@yahoo.com / alysowen1@hotmail.co.uk), os gwelwch yn dda.
- **Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10:00.**
- **Cyfarfod Diolchgarwch Teuluol yng Nghefn Berain am 10:00** ac fe gesglir yr offrwm diolch. Er mwyn sicrhau lle, rhowch eich enw i Meryl neu Eirian (post@brynamel.co.uk / eirianj123@gmail.com) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – Tachwedd 14^{eg} ➤ **Oedfa yng Nghefn Berain am 9:30 ac yn Groes am 11:00** o dan arweiniad y Parch. Dafydd Job. Er mwyn sicrhau lle yng Nghefn Berain, rhowch eich enw i Meryl neu Eirian (post@brynamel.co.uk / eirianj123@gmail.com) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.

Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – Hydref 31^{ain} ➤ **Oedfa yn Saron am 10:00** o dan arweiniad Mr Celfyn Williams.
- Sul nesaf – Tachwedd 7^{fed} ➤ Cynhelir **Oedfa (ar gyfer aelodau Peniel yn unig) yng Nghapel Saron am 4:00** o dan arweiniad swyddogion o'r Henaduriaeth fydd yn dod i gymryd llais terfynol yr aelodau ar ddyfodol yr eglwys ym Mheniel.
- Sul canlynol – Tachwedd 14^{eg} ➤ **Oedfa yn Saron am 10:00** o dan arweiniad Mr Dafydd Timothy.
- **Gwasanaeth Diolchgarwch yn Nantglyn am 2:00.**